OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 Rhif 1639 (Cy. 344)

# YMADAEL Â'R UNDEB EWROPEAIDD, CYMRU AMAETHYDDIAETH, CYMRU ANIFEILIAID, CYMRU IECHYD PLANHIGION, CYMRU

## Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd, Ffioedd Iechyd Planhigion etc.) (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020

*Cymeradwywyd gan Senedd Cymru*

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *22 Rhagfyr 2020* |
| *Gosodwyd gerbon Senedd Cymru - - - -* | *29 Rhagfyr 2020* |
| *Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2)* | |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan baragraff 1(1) o Atodlen 2 a pharagraff 21 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Mae Gweinidogion Cymru o'r farn, oherwydd brys, fod angen gwneud y Rheoliadau hyn heb osod drafft o'r offeryn gerbron Senedd Cymru, na chymeradwyo'r drafft hwnnw drwy benderfyniad ganddi.

## RHAN 1

### Rhagarweiniol

**Enwi a chychwyn**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd, Ffioedd Iechyd Planhigion etc.) (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu.

(**1**) 2018 p. 16. Diwygiwyd paragraff 21 o Atodlen 7 gan baragraff 53 o Ran 2 o Atodlen 5 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020 (p. 1).

# RHAN 2

## Diwygio is-ddeddfwriaeth

**Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011**

**2.**—(1) Mae Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011(**2**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn Atodlen 2, ar ôl paragraff 11 mewnosoder—

"**Amodau Mewnforio Arbennig**

**11A.**—(1) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau osod amodau mewnforio arbennig mewn cysylltiad â mewnforion o drydydd gwledydd o gynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid a fwriedir ar gyfer eu bwyta gan bobl, gan roi sylw i'r sefyllfa o ran iechyd anifeiliaid yn y drydedd wlad neu yn y trydydd gwledydd dan sylw, a chânt at y diben hwnnw ddiwygio, addasu neu ddirymu unrhyw fân ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir a wnaed o dan Erthygl 8(4) o Gyfarwyddeb y Cyngor 2002/99/EC(**3**).

(2) Mae'r pŵer i wneud rheoliadau o dan y paragraff hwn—

(a) yn arferadwy drwy offeryn statudol;

(b) yn cynnwys pŵer i wneud darpariaeth wahanol at ddibenion gwahanol; ac

(c) yn cynnwys pŵer i wneud unrhyw ddarpariaeth gysylltiedig, atodol, canlyniadol, darfodol, trosiannol neu ddarpariaeth arbed y mae Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn briodol.

(3) Mae offeryn statudol sy'n cynnwys rheoliadau a wnaed o dan y paragraff hwn yn ddarostyngedig i'w ddiddymu yn unol â phenderfyniad gan Senedd Cymru."

**Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd, Ffioedd Iechyd Planhigion etc.) (Cymru) 2020**

**3.**—(1) Mae Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd, Ffioedd Iechyd Planhigion etc.) (Cymru) 2020(**4**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2(1)—

(a) yn lle'r diffiniad o "Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol yr UE" rhodder—

"ystyr "y Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol" ("*the Official Controls Regulations*") yw Rheoliad yr UE a'r Rheoliadau Gweithredu, y Rheoliadau Dirprwyedig a'r offerynnau statudol a wnaed oddi tano;";

(b) yn y diffiniad o "swyddog gorfodi", yn lle "orfodi Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol yr UE" rhodder "orfodi'r Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol";

(c) yn y diffiniad o "deddfwriaeth berthnasol", yn lle "Ewropeaidd a domestig" rhodder "uniongyrchol yr UE a ddargedwir a deddfwriaeth ddomestig".

(3) Yn rheoliad 4, hepgorer "yn y Deyrnas Unedig ac mewn Aelod-wladwriaethau eraill".

(4) Yn rheoliadau 4, 5(1), 9(3), 11(1), 12(1) a 13, ym mhob lle y maent yn digwydd, yn lle "a Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol yr UE" rhodder "a'r Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol", yn lle "â Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol yr UE" rhodder "â'r Rheoliadau Rheolaethau

(**2**) O.S. 2011/2379 (Cy. 252), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**3**) OJ Rhif L 18, 23.1.2003, t. 11 fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwyddeb y Cyngor 2013/20/EU (OJ Rhif L 158, 10.6.2013, t. 234).
(**4**) O.S. 2020/44 (Cy. 5).

Swyddogol", yn lle "neu Reoliadau Rheolaethau Swyddogol yr UE" rhodder "neu'r Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol" ac yn lle "yn Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol yr UE" rhodder "yn y Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol".

(5) Yn rheoliad 9—

(a) ym mharagraff (1)—

(i) hepgorer "o Aelod-wladwriaeth arall";

(ii) yn is-baragraff (a), hepgorer y gair "gwlad";

(b) hepgorer paragraff (2).

*Lesley Griffiths*
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru

22 Rhagfyr 2020

---

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud drwy arfer y pŵer a roddir gan baragraff 1(1) o Atodlen 2 a pharagraff 21 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (p. 16), er mwyn ymdrin ag unrhyw fethiant yng nghyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol a diffygion eraill sy'n deillio o ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau o ran gweithrediad sy'n ymwneud â rheolaethau swyddogol i Reoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011 (O.S. 2011/2379 (Cy. 252)) a Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Anifeiliaid, Bwyd Anifeiliaid a Bwyd, Ffioedd Iechyd Planhigion etc.) (Cymru) 2020 (O.S. 2020/44 (Cy. 5)).

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.